

Ffocws y Pwnc

Hanes lleol, ymchwiliad hanesyddol, llythrennedd a thrin data

Crynodeb

Mae gweithgareddau'r pwnc hwn yn galluogi i blant archwilio safle claddu fel cyswllt â'r gorffennol. Bydd y plant yn ymchwilio i'r cerrig beddau, y cofadeiladau a'r cofgolofnau. Byddant yn datgelu'r straeon am y bobl sydd wedi'u claddu yno ac yn dod i ddeall mwy am bwy fu'n byw o'u blaen yn eu cymuned, a sut roeddent yn byw. Mae'r cerrig beddau'n coffau bywydau a bydd y disgyblion yn eu defnyddio fel prif ffynhonnell o dystiolaeth hanesyddol a hefyd fel ffynhonnell o wybodaeth ar gyfer casglu data.

Dyma'r gweithgareddau: Ditectif Data, Ar Gof a Chadw, Oes Dda, Cewri Lleol.

CSBC, CA1 a CA2

Sgiliau Allweddol

Ymchwilio
Cydymdeimlo
Canfod
Arsylwi
Llunio Casgliadau

Geiriau Allweddol

Tystiolaeth

Cysylltiadau Cwricwlwm

Mae gweithgareddau'r pwnc hwn yn helpu i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y disgyblion mewn Hanes, Llythrennedd, Mathemateg a Chyfrifiadura.

CSBC

Deall y Byd

Pobl a chymunedau

Datblygiad Mathemategol



Dyfarniad John Muir

Darganfod

Archwilio

Gwarchod

Rhannu



Rhowch gynnig ar y gweithgareddau canlynol os ydych yn gweithio tuag at unrhyw rai o'r bathodynau canlynol:

Enfys – Edrych a Dysgu

Beavers - Gweithgaredd Archwilio

Cybiau - Gweithgaredd Gwybodaeth Leol

Guides - Diwylliant

Sgowtiaid - Gweithgaredd Treftadaeth, Gweithgaredd Fy Ffydd I

Oes Dda

Mae'r gweithgareddau a awgrymir yn darparu cyfleoedd i blant ddefnyddio arteffactau a delweddau gweledol fel prif ffynonellau ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth o'r gorffennol. Mae'r gwrthrychau'n cynnig cliwiau a thystiolaeth am fywydau bob dydd y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn eu cymuned ar wahanol gyfnodau mewn amser, gan ddatgloi eu straeon. Mae hefyd yn galluogi i blant wneud cymariaethau rhwng bywydau pobl.

Dim ond pobl gyfoethog oedd yn gallu fforddio cofgolofn garreg tan oddeutu'r 18fed ganrif, pryd roeddent yn dechrau cael eu defnyddio'n ehangach. Roedd pobl gyfoethog a dylanwadol yn dewis cael eu claddu yn adeilad yr eglwys neu'n agos ato, a'r bobl dlotach ymhellach i fwrdd. Roedd 'dieithriaid, tlodion a'r rhai a oedd wedi marw marwolaeth dreisgar' yn cael eu claddu ar ochr ogleddol yr eglwys.

Canlyniadau Dysgu

Bydd y plant yn gwneud y canlynol:

- Dehongli tystiolaeth hanesyddol i gael gwybodaeth am fywydau'r bobl yn y gorffennol a sut gymeriadau oeddynt
- Dangos dealltwriaeth o sut gall arteffactau a gwrthrychau ddarparu tystiolaeth a'n helpu i ddarganfod mwy am y gorffennol

Cwestiynau Allweddol

Beth rydym yn ei wybod am y bobl oedd yn byw yn ein hardal? Beth mae'r gwrthrychau'n ei ddweud wrthym?

Adnoddau

Detholiad o wrthrychau perthnasol i unigolion yn y safle claddu.

Paratoi

Bydd rhaid cynllunio'r gweithgaredd yma'n ofalus a chasglu gwrthrychau i'w defnyddio sy'n berthnasol i unigolyn sydd wedi'i gladdu yn y safle claddu. Bydd rhaid i chi ymweld â'r safle i ddewis pa unigolion rydych am ymchwilio iddynt a chofiwch bod posib i chi ddyfeisio stori ar eu cyfer. Gallech chwilio am unigolyn o'r cyfnod rydych yn ei astudio; Oes Victoria, yr Ail Ryfel Byd, y 1960'au neu'r 1970'au ac ati.

Gellir ymestyn y gweithgaredd i gynnwys nifer o bobl yn y safle claddu. Cymharwch y bobl sydd wedi'u claddu yno, gan gynnwys y cyfoethog a'r tlawd, dynion, merched neu blant. Gallech ddefnyddio bag llaw, bag ysgol, cist drysorau, blwch celfi, blwch arbennig neu

bocedi mewn siaced i gyflwyno'r gwrthrychau. Dylai pob gwrthrych ddatgelu rhywbeth am y person sydd wedi'i gladdu yno; sut fywyd a gafodd a beth oedd yn ei wneud pan oedd yn fyw. Gall y gwrthrychau gynnwys dilledyn, gwrthrych bob dydd o'r cyfnod, fel tegan, celfcyn neu eitem o'r cartref, darn o arian, tocyn, ffotograff neu lythyr.

Y Prif Weithgaredd

Ditectifs ar waith!

Pan fu farw'r person yma, cafwyd hyd i'r gwrthrychau hyn yn ei boced ef/hi.

Pwynt trafod - Beth maent yn ei ddweud wrthym am y person? Beth maent yn ei ddweud wrthym am y cyfnod roedd yn byw ynddo neu ei deulu? Beth maent yn ei ddweud wrthym am y gwaith roedd yn ei wneud ac am ei fywyd?

Esiampl 1 – Dyn cyfoethog o Oes Victoria – oriawr boced, pibell, ffon gerdded grand, tei sidan, darn arian o oes Victoria.

Esiampl 2 – Gwraig a fu farw yn ystod yr Ail Ryfel Byd – bag llaw gyda llyfr dogni, masg nwy, menig, pwrs gyda sylltau a cheiniogau, rhestr siopa, sgarff pen, ffotograff o filwr, patrwm gwnïo.

Sesiwn i Bawb

Gyda phartner, dewiswch garreg fedd neu garreg goffa arall a darllenwch y wybodaeth arni. Pa wrthrychau fyddai gan y person hwn gydag ef pan oedd yn marw? Dywedwch wrth eich partner.

Yn Ôl yn yr Ysgol

Ysgrifennu Cyffrous

- Dychmygwch eich bod yn berson o'r gorffennol. Dychmygwch ddiwrnod ym mywyd y person hwnnw, pryd a sut roedd yn byw. Ysgrifennwch gofnod dyddiadur.
- Gallai'r plant greu eu 'blychau atgofion' eu hunain yn llawn gwrthrychau arbennig sy'n dweud wrthym amdanynt a'r pethau sy'n arbennig iddynt.

